Rhif: **WG22211**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghori ar wella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol

Dyddiad cyhoeddi: **14 Gorffennaf 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **6 Hydref 2014**

## Trosolwg

Rydym yn gwahodd eich barn ar gynigion i wella argaeledd tir ar gyfer rhandiroedd, i ddiogelu tir ar gyfer rhandiroedd ac i wella cyfleoedd i dyfu yn y gymuned.

Y diben yw amlinellu fframwaith polisi strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer nodi tir i'w ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd, a'i ddarparu, a helpu i hybu sgiliau, iechyd meddwl a chorfforol ac i adfywio cymunedau lleol.

Bydd asesiadau llawn o'r effaith ar Fioamrywiaeth, y Newid yn yr Hinsawdd, Hawliau Plant a Phobl Ifanc, Tlodi, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg yn cael eu cynnal ar y cynigion yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **6 Hydref 2014**. Gallwch ymateb drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol.

Cyfeiriad:

Yr Is-adran Chwaraeon, Hamdden Awyr Agored a Thirweddau
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

E-bost: Allotments@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 2246

Ffurflen ymateb ar-lein: Gellir cael copi o'r ffurflen ar ein gwefan www.cymru.gov.uk.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Ffoniwch ni ar 0300 062 2246 neu anfonwch e-bost i: Allotments@wales.gsi.gov.uk i ofyn am gopi.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tîm Hamdden Awyr Agored
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

E-bost: Allotments@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 062 2246

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2014

## Rhagair gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon



Rwy'n falch o gael cyflwyno'r ymgynghoriad hwn ar wella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol. Mae llawer o bobl yng Nghymru yn cael mwynhad arbennig o dyfu bwyd ar eu cyfer eu hunain a'u teuluoedd yn ystod eu hamser hamdden ac mae'n rhywbeth y gall unigolion a grwpiau o bob oed a gallu, beth bynnag yw eu sefyllfa ariannol, ei fwynhau. Mae gwneud defnydd mwy cynhyrchiol o dir yn ein cymunedau drwy randiroedd a mannau tyfu yn gallu arwain at fanteision cymdeithasol, ac mae'n grymuso cymunedau a chefnogi eu hadfywiad.

Cafodd rhandiroedd eu sefydlu yn wreiddiol fel ffordd i ddynion a oedd yn gweithio yn niwydiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ddarparu bwyd i'w teuluoedd. Cafodd y fantais hon ei chydnabod unwaith yn rhagor yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac ymlaen hyd ddechrau'r 1920au. Gyda chostau bywyd yn cynyddu'n barhaus a mwy o ymwybyddiaeth o'r effaith y mae cynhyrchu bwyd ar raddfa fawr yn ei chael ar iechyd a'r amgylchedd, mae pobl yn chwilio fwyfwy unwaith yn rhagor am ddulliau a lleoedd mwy cynaliadwy i dyfu eu bwyd eu hunain. Mae sicrhau bod gan bobl mwy o gyfleoedd, a chyfleoedd gwell, i fwynhau tyfu a garddio hefyd yn chwarae rhan bwysig i drechu cyfyngiadau tlodi, grymuso ac adfywio cymunedau a gwella ansawdd bywyd, a hybu lles corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Fis Gorffennaf y llynedd, cyhoeddais adolygiad o ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â hamdden awyr agored, a oedd yn cynnwys edrych ar y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer rhandiroedd yng Nghymru. Yn sgil cynnal yr adolygiad hwnnw, daeth i'r amlwg bod angen inni edrych yn fwy gofalus ar y ddeddfwriaeth ac ystyried a oes angen ei diweddaru a'i gwella, yn arbennig o safbwynt dod o hyd i ffordd well o gofnodi argaeledd tir a chynnig diffiniad gwell o dir ar gyfer tyfu yn y gymuned, a ddylai fod yn fwy hyblyg na rhandir 'traddodiadol'. Mae'n glir hefyd fod llawer o waith y byddai'n ddefnyddiol inni ddysgu ohono yn cael ei wneud y tu allan i'r fframwaith deddfwriaethol.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r tir sydd ar gael ar gyfer rhandiroedd a nodau ei Chynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion a geir yn yr ymgynghoriad hwn. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynigion yn y papur hwn. Bydd eich ymatebion o gymorth i ddatblygu polisïau'r dyfodol ar randiroedd a thyfu yn y gymuned.



**John Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yna amryw o ffyrdd ar gael inni wneud defnydd cynhyrchiol o’n tir er budd yr amgylchedd, cymdeithas a’r economi. Mae’r cyflenwad tir ar gyfer rhandiroedd yn un o faterion allweddol y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r ymrwymiad hwn yn cydnabod bod y galw am dir addas i alluogi pobl i dyfu eu bwyd eu hunain yn dal i fod yn uchel.

**2.** Mae darparu rhandiroedd, y defnydd a wneir ohonynt, a gweithgareddau tyfu yn y gymuned yn bodloni angen sylfaenol i bobl drin y tir a thyfu ac mae hefyd o gymorth i les ac iechyd meddyliol a chorfforol, yn hybu sgiliau ac yn helpu i adfywio cymunedau lleol. Mae gweithgarwch o'r fath yn chwarae rhan i fodloni amcanion Llywodraeth Cymru, sef:

- cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb
- amgylchedd glân gyda defnydd mwy cynaliadwy o’n hadnoddau naturiol
- cymdeithas â gwir ymdeimlad â’i diwylliant a’i hanes
- pobl iach sy’n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar.

**3.** Mae'r ymgynghoriad hwn yn cwmpasu rhandiroedd a thyfu yn y gymuned.

**4.** Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i roi asesiad o gyflwr y ddarpariaeth ar hyn o bryd ac yn ysbrydoli’r camau y gellir eu cymryd i'w gwella. Bydd hefyd o gymorth i gasglu tystiolaeth am y rhwystrau sy'n codi wrth geisio darparu tir addas i alluogi pobl i dyfu eu bwyd eu hunain, a sut y gellir ymateb i’r rhwystrau hynny, yn ogystal ag ystyried y gwersi y gellir eu dysgu o'r rhaglenni amrywiol a gynhaliwyd yn y gorffennol, ac sydd ar y gweill ar hyn o bryd, sy'n rhoi cyfle i gymunedau dyfu a garddio.

**5.** Bydd yr ymgynghoriad yn ymchwilio i’r ffordd y gellir gwella'r ddarpariaeth drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a chymorth anneddfwriaethol er mwyn caniatáu mwy o fynediad i randiroedd. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn helpu Gweinidogion Cymru i benderfynu ar y ffordd orau i gefnogi rhandiroedd a thyfu yn y gymuned ac i benderfynu hefyd a fydd angen deddfwriaeth newydd.

**6.** Byddwn yn croesawu eich sylwadau ar yr holl gynigion yn ogystal ag unrhyw sylwadau eraill sydd gennych. Mae diddordeb arbennig gennym glywed pa effaith y bydd y cynigion yn ei chael yn eich barn chi, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol. Byddwn hefyd am eich barn a fydd unrhyw effaith yn cael ei rhannu'n gyfartal ar draws sefydliadau a chymunedau. Er enghraifft, efallai eich bod chi o'r

farn y bydd y cynigion yn cael mwy o effaith gadarnhaol mewn rhai rhannau o Gymru nag eraill. Ar y llaw arall, efallai y byddant yn rhoi pwysau diangen ar gyrff cyflenwi mewn ardaloedd lle bo'r galw yn isel mewn gwirionedd. Mae'n bwysig inni bod y cynigion, ac unrhyw newidiadau a allai ddilyn, yn cael effaith gadarnhaol ym mhob cwr o Gymru ac na fyddant yn gyfrifol am greu baich gweinyddol diangen.

## 2. Y Manteision

**7.** Mae manteision rhandiroedd a thyfu yn y gymuned yn hysbys i bawb erbyn hyn. Maent yn cynnwys:

- darparu cyflenwad bwyd cynaliadwy
- cynnig gweithgaredd iach i bobl o bob oed
- meithrin cyfleoedd i ddatblygu cymunedau ac iddynt ddod yn fwy cydlynol
- darparu adnodd addysgol
- rhoi mynediad i natur a bywyd gwyllt, a bod yn adnodd ar gyfer bioamrywiaeth
- darparu mannau agored i gymunedau lleol
- lleihau allyriadau carbon drwy osgoi cludo bwyd dros bellteroedd maith.

**8.** Mae mentrau megis Llysiau'r Vetch yn Abertawe yn dangos yn glir bod llawer o fanteision cymdeithasol yn deillio o rannu gofod tyfu. Mae'r prosiect wedi dod â'r gymuned ynghyd ac mae'n enghraifft o ba mor bell mae tyfu yn y gymuned wedi dod o'i gymharu â'r model hanesyddol o randir traddodiadol.

**9.** Mae yna fanteision amgylcheddol yn gysylltiedig â garddio hefyd. Mae trin y tir yn annog bioamrywiaeth yn y pridd ac ar y ddaear. I gefnogi pryfed peillio, mae'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol yn annog garddwyr i dyfu blodau sy'n rhyddhau paill a neithdar am dymor sydd cyn hired â phosibl. Mae'r Gymdeithas hefyd yn annog pobl i gompostio deunyddiau'r ardd er mwyn cyflymu'r broses naturiol o ailgylchu maetholion a darparu cynefin i greaduriaid megis nadroedd defaid a nadroedd brith.

**10.** Yn 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru Dasglu'r Pryfed Peillio sydd wedi dod â rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynghyd i gyflawni amcanion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio[1]. Mae gerddi a rhandiroedd yn adnodd pwysig i'n bywyd gwyllt brodorol, gan gynnwys pryfed peillio. Maen nhw'n chwarae eu rhan i sicrhau bod Cymru yn darparu cynefinoedd amrywiol, llawn blodau, sydd â chysylltiad rhyngddynt, i gynnal ein pryfed peillio.

---

[1] Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio gan Lywodraeth Cymru Gorffennaf 2013

## 3. Y sefyllfa bresennol: y cynnydd a'r heriau

**11.** Ym mis Gorffennaf 2010, yn dilyn ymchwiliad i sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi mwy o gyfleoedd ar gyfer rhandiroedd a garddio yn y gymuned, cyhoeddwyd adroddiad gan Bwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r enw *Darparu Rhandiroedd yng Nghymru*[2]. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion a oedd yn canolbwyntio ar gyfres o welliannau, gan gynnwys safoni rhestri aros, cynyddu'r tir sydd ar gael ar gyfer rhandiroedd a garddio yn y gymuned a darparu cronfa ar gyfer sefydlu mannau tyfu yn y gymuned. Derbyniodd Llywodraeth Cymru fel ag yr oedd ar y pryd yr argymhellion hyn ar y cyfan.

**12.** Ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi rhoi ar waith amryw o gamau gweithredu anneddfwriaethol gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan y Pwyllgor.

**13.** Mae'r Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol yn cyflwyno'r prosiect "Tyfu Pobl" ar hyn o bryd, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Datblygu Gwledig. Nod y prosiect yw sicrhau bod modd rhannu gwybodaeth ac arferion da ymhlith y sector tyfu yn y gymuned[3]. Mae'r Ffederasiwn hefyd yn rheoli prosiect pum mlynedd, a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr, sef y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (CLAS). Nod y gwasanaeth yw helpu grwpiau cymunedol, tirfeddianwyr a phobl eraill sydd â diddordeb i ddod o hyd i wybodaeth am ryddhau mwy o dir at ddefnydd cymunedau.

**14.** Mae yna rai prosiectau rhagorol hefyd sy'n cael eu cefnogi gan awdurdodau lleol, gan gynnwys prosiect gardd gymunedol yn Abertawe o'r enw Llysiau'r Vetch. Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gweithio'n ddiwyd i hyrwyddo prosiectau tyfu yn y gymuned drwy ddefnyddio cyllid grant o dan gynllun Tyfu'n Lleol Abertawe[4].

**15.** Ym mis Gorffennaf 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned. Prif nod y Cynllun oedd hyrwyddo, cefnogi ac annog cyfleoedd i dyfu bwyd yn y gymuned yng Nghymru; ymhlith cymunedau ac unigolion yn tyfu yn eu gerddi eu hunain. Ymhlith y nodau eraill roedd diogelu'r cyflenwad bwyd yn well drwy gynyddu'r cynnyrch garddwriaethol a dyfwyd yn

---

[2] Darparu Rhandiroedd yng Nghymru gan Bwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gorffennaf 2010

[3] I gael rhagor o wybodaeth: Tyfu Pobl: Supporting Communities to Grow

[4] I gael rhagor o wybodaeth: Tyfu'n Lleol Abertawe

lleol sydd ar gael yng Nghymru; darparu tystiolaeth o waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd a chynnig canllaw arferion gorau ar gyfer prosiectau cymunedol yn y dyfodol; a chynyddu nifer y bobl sydd â diddordeb mewn tyfu bwyd.

**16.** I fodloni un o'r camau gweithredu a nodwyd, comisiynwyd Arsyllfa Wledig Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad i ystyried yr hyn y gellid ei wneud i hyrwyddo ac annog 'Tyfu yn y Gymuned' yng Nghymru. Daeth yr ymchwil i'r casgliad bod diffyg argaeledd tir yn rhwystr mawr i sefydlu gweithgareddau tyfu bwyd yn y gymuned mewn ardaloedd ledled Cymru erbyn hyn, gyda'r galw am dir gan y sector cymunedol yn rhagori ymhell ar y ffynonellau traddodiadol. Mewn ardaloedd lle'r oedd tir yn cael ei glustnodi at y diben hwn, daeth y gwaith ymchwil o hyd i dystiolaeth bod prosiectau tyfu yn y gymuned yn wynebu anawsterau o du'r system gynllunio ac o ran diogelwch deiliadaeth tir.

**17.** Yn ôl yr ymchwil a gynhaliwyd, dylai awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau ffurfiol ar gyfer tyfu yn y gymuned, a dylid creu cysylltiadau ffurfiol rhyngddynt â chynlluniau strategol, polisïau cynllunio defnydd tir a pholisïau a strategaethau eraill yr awdurdodau lleol. At hynny, awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir i awdurdodau lleol yn amlinellu eu rôl i hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau tyfu yn y gymuned.

**18.** Yng nghasgliadau adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru, dywedwyd "*roedd y rhai a fu'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o fynd i'r afael â'r sefyllfa hon [diffyg tir ar gael ar gyfer tyfu yn y gymuned] ac i ddod â mwy o dir segur i mewn i ddefnydd cymunedol cynhyrchiol*"[5]. Argymhellwyd yn yr adroddiad y dylid rhoi cyngor ac arweiniad gwell i awdurdodau lleol a grwpiau ar ddod o hyd i dir a thyfu bwyd. Roedd hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer newidiadau deddfwriaethol i gyfraith rhandiroedd, gan gynnwys diogelu drwy'r gyfraith "*y mannau tyfu a'r rhandiroedd sydd wedi'u sefydlu er mwyn galluogi cymunedau a grwpiau i sicrhau manteision hirdymor o'u gwaith a chael gwared ar y risg o golledion drwy ddatblygu*"; i symleiddio'r iaith a defnyddio iaith gyfoes; ac i "*gynnwys darpariaethau ynghylch gwerthu cynnyrch gormodol*".

**19.** Mae'n wir fod darparu digon o dir ar gyfer rhandiroedd a thyfu yn y gymuned a lleihau'r rhestri aros ar gyfer y rheini sy'n dymuno cael llain yn her fawr. Profiad llawer o bobl yw cael eu rhoi ar restri aros awdurdodau lleol am flynyddoedd lawer ac ni all awdurdodau lleol, sydd dan gryn bwysau i ddod o hyd i dir i'w ddatblygu, fodloni'r galw drwy ddarparu mwy o dir yn agos at dai pobl. Mae amryw o ffactorau ar waith yma, gan gynnwys y ddeiliadaeth hir sydd gan lawer o

---

[5] Tyfu Bwyd yn y Gymuned yng Nghymru gan Arsyllfa Wledig Cymru 2012

arddwyr ar safleoedd rhandir, rhestri aros nad ydynt yn cael eu rheoli, neu ddiffyg cofrestri. O ganlyniad, mae rhai unigolion yn rhoi eu henwau ar restri aros am randiroedd ar wahanol safleoedd a fyddai'n dderbyniol iddynt; gallai enw fod ar restr pan nad yw'r unigolyn yn dymuno cael llain bellach; gallai rhai darparwyr rhandiroedd, yn achos rhestri aros hir, gau eu rhestri aros pan fydd nifer penodol o enwau arnynt; a gallai amser aros hir (tybiedig neu fel arall) rwystro rhai rhag gwneud cais, a'u heithrio o ganlyniad.

## 4. Y Cyd-destun Polisi Ehangach

**20.** Mae rhandiroedd a thyfu yn y gymuned yn perthyn i gyd-destun polisi eang a byddant yn helpu i gyfrannu at ein gweledigaeth hirdymor o Gymru gynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld datblygu cynaliadwy yn dod yn rhan annatod o waith awdurdodau penodol yn y gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a'u partneriaid, a'u gweld yn cynllunio ac yn gweithredu gyda'i gilydd i wella lles pobl a chymunedau yn eu hardaloedd yn y tymor hir. Sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nodau y ceisir eu sefydlu gan Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw'r amcan. Bydd y Bil hefyd yn pennu'r dulliau y dylai sefydliadau eu defnyddio i gyfrannu at y nodau hyn. Bydd datblygu dull mwy hirdymor ac integredig yn golygu bod modd mynd i'r afael ag amrywiaeth ehangach o faterion lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. O ganlyniad, er mwyn gallu cyfrannu'n effeithiol at y cynlluniau hyn, rydym o'r farn bod angen gwella'r sail dystiolaeth ar y ddarpariaeth rhandiroedd a mannau tyfu yn y gymuned, a'r galw sydd amdanynt, at safon gyson. Yn ogystal ag annog mwy o bobl i gymryd rhan, gellid diweddaru'r dyletswyddau presennol i ddarparu rhandiroedd a'r dulliau a ddefnyddir i weinyddu'r ddarpariaeth honno, a'i monitro, i gefnogi dull mwy cadarn o gynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy.

**21.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno cyflwyno fframwaith rheoleiddio newydd yn benodol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys proses o gynllunio a phennu blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer ein hadnoddau naturiol yng Nghymru. Bydd y "dull seiliedig ar ardal" a gynigir yn sicrhau bod gennym yr wybodaeth gywir am yr heriau a'r cyfleoedd mewn gwahanol ardaloedd, ac yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael am yr anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Bydd y dystiolaeth yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff eraill yn yr ardal leol i wneud penderfyniadau ar sut y gallwn wella ein hamgylchedd i sicrhau mwy o fanteision cymunedol ac economaidd, gan ddod yn fwy cydnerth a thargedu buddsoddiad yn well at brosiectau sy'n arwain at amryw o fanteision.

**22.** Fel rhan o'r broses hon, mae yna gyfle clir i gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision llai diriaethol a ddaw i ran unigolion wrth ymddiddori a chymryd rhan

mewn gweithgareddau mewn amgylcheddau naturiol - gan gynnwys tyfu yn y gymuned a garddio ar safleoedd rhandir - megis manteision i iechyd corfforol a meddyliol, cydlyniant cymdeithasol a manteision ysbrydol eraill. Bydd yn bwysig, unwaith yn rhagor, fod cysondeb yn y modd y caiff y manteision hyn eu hystyried yn y sail dystiolaeth ar y ddarpariaeth rhandiroedd a mannau tyfu yn y gymuned a'r galw sydd amdanynt. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn sail ar gyfer rhywfaint o'r dystiolaeth honno, a bydd hefyd yn dylanwadu ar y ffordd y gallai rhandiroedd a thyfu yn y gymuned gael eu cefnogi o dan y dull newydd hwn o reoli ein hadnoddau naturiol.

## 5. Diweddaru a gwella - dod â garddio i mewn i'r 21ain ganrif

**Nod: Sicrhau bod y cyflenwad o safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned, gan gynnwys rhandiroedd, yn bodloni anghenion lleol yn fwy effeithiol.**

**Cwestiwn 1**: A ydych chi'n cytuno â nod Llywodraeth Cymru ar gyfer rhandiroedd a thyfu bwyd yn y gymuned?

**Cwestiwn 2**: Beth yw'r prif faterion a'r blaenoriaethau yng Nghymru ar gyfer gwireddu'r nod hwn?

### 5.1. Cynigion ar gyfer Camau Gweithredu Anneddfwriaethol

**Cynnig 1: Bod canllawiau cynhwysfawr ar hyrwyddo a chefnogi tyfu bwyd yn y gymuned yn cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru.**

**23.** Mae llawer o brosiectau a sefydliadau yn chwarae eu rhan i annog pobl i dyfu eu bwyd eu hunain ac yn darparu cyfleoedd iddynt wneud hynny. Argymhellwyd gan Bwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol y dylid llunio canllawiau i fynd i'r afael yn benodol â'r mater o faint yw cyfnod rhesymol o amser i awdurdod ymateb i gais am dir. Roedd ymchwil Arsyllfa Wledig Cymru, a fu o gymorth i Lywodraeth Cymru fabwysiadu nifer o argymhellion y Pwyllgor, yn argymell y dylid llunio canllawiau i awdurdodau lleol a fyddai'n diffinio'n glir eu rôl i hyrwyddo gweithgareddau tyfu yn y gymuned a'u cefnogi.

**24.** Cafodd “Growing in the Community” ei lunio gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol i helpu'r rheini sy'n gyfrifol am wasanaethau rhandiroedd i ddysgu o'r arferion da sy'n bodoli eisoes. Cafodd yr ail argraffiad ei gyhoeddi yn 2010. Mae'r ddogfen yn bwysig gan ei bod yn tynnu profiadau o ddarparu gwasanaethau rhandiroedd ynghyd mewn un ffynhonnell. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid llunio canllawiau penodol i Gymru a fydd yn gallu adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol yn well, gan gynnwys ein hymrwymiadau i drechu tlodi a hybu iechyd, a'r materion a'r blaenoriaethau a fydd yn deillio o'r ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 3**: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid llunio canllawiau penodol i Gymru?

**Cwestiwn 4**: Pa faterion y dylid eu cynnwys yn y canllawiau?

**Cynnig 2: Bod Llywodraeth Cymru i annog a chefnogi tirfeddianwyr cyhoeddus a phreifat i ryddhau tir ar gyfer gweithgareddau tyfu bwyd yn y gymuned.**

**25.** Mae gan Lywodraeth Cymru rôl arwain yng nghyd-destun ei hystad ei hun ac o ran annog cymdeithasau tai, ysbytai, awdurdodau lleol ac eraill i sicrhau mwy o fanteision o'r tir y maent yn berchen arno neu’n ei reoli. O ganlyniad i'r amrywiaeth eang yn y math o dir, ei ddeiliadaeth, a'r defnydd a wneir ohono eisoes, rydym o'r farn bod rhoi anogaeth a chefnogaeth yn ffordd fwy synhwyrol o symud ymlaen na chyflwyno gofyniad penodol. Gallai dull gwirfoddol, yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o'r manteision i gymunedau, helpu i feithrin y cyfleoedd cywir yn y lleoliadau cywir.

**26.** Mae llawer o gymdeithasau tai eisoes yn ystyried o ddifrif sut y gallant ddefnyddio eu rôl a'u swyddogaethau i sicrhau mwy o fanteision i'r gymuned, felly byddai darparu mannau ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned yn opsiwn. O ystyried pa mor bwysig yw adeiladu mwy o dai, byddai angen ystyried yn ofalus cyn clustnodi tir at ddibenion eraill. Fodd bynnag, gyda'r gefnogaeth briodol, mae’n bosibl y gellid cynyddu nifer y mannau sydd ar gael gan dorri hefyd ar y costau rheoli sydd ynghlwm wrth gynnal a chadw mannau amwynder agored mewn datblygiadau. Gellid hefyd plannu coed ffrwythau a chreu gerddi ysgol mewn mannau gwyrdd agored ar dir ysgolion.

**27.** Mae tir ysbytai eisoes yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amrywiol, gyda rhywfaint o dir ysbytai wedi'i gofrestru fel parciau a gerddi a thir arall yn cael ei dirlunio i gleifion gael ei ddefnyddio fel amwynder. Mae'r defnydd hwn eisoes yn rhoi gwerth i gymunedau, felly wrth ystyried mannau tyfu arfaethedig i gymunedau - neu i gleifion - byddai rhaid ystyried sut ddefnydd sy'n cael ei wneud eisoes o dir er budd y gymuned. Mae argaeledd tir hefyd yn amrywio'n fawr ar draws ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae lle yn werthfawr iawn ar

safleoedd rhai ysbytai acíwt, ond nid yw'r sefyllfa mor ddybryd mewn ysbytai cymunedol llai neu unedau iechyd meddwl. O ganlyniad, diben y cynnig yw ymchwilio i'r hyn sy'n bosibl ac i'r math o gefnogaeth y byddai ei hangen i alluogi timau ystadau mewn ysbytai i gydweithio â chymunedau ar gyfleoedd i dyfu ar raddfa briodol er budd y gymuned ehangach, grwpiau neu gleifion.

**28.** Roedd Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned 2010 yn cydnabod ei bod hi'n bosibl bod yna ardal fawr o dir sydd o dan berchenogaeth gyhoeddus, breifat neu sy'n eiddo i'r trydydd sector yng Nghymru y gellid ei defnyddio ar gyfer tyfu yn y gymuned. Ymchwiliodd astudiaeth Arsyllfa Wledig Cymru i'r posibilrwydd o greu banc tir – rhestr o dir a fyddai'n addas ac ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer tyfu yn y gymuned – ac argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth uchel i ryddhau tir ar gyfer tyfu yn y gymuned, drwy:

(i) sefydlu gwasanaeth banc tir cymunedol i hwyluso mynediad i dir
(ii) lansio arolwg i ddod o hyd i'r holl dir cyhoeddus y byddai'n bosibl ei ddefnyddio ar gyfer tyfu bwyd yng Nghymru.

**29.** Gallai sefydlu gwasanaeth banc tir cymunedol ar gyfer hwyluso mynediad i dir ac i ddod o hyd i'r holl dir cyhoeddus y byddai'n bosibl ei ddefnyddio ar gyfer tyfu bwyd yng Nghymru helpu i gynyddu'r tir sydd ar gael ar gyfer rhandiroedd a thyfu yn y gymuned. Gallai fod yn gyfrwng clir i berchnogion tir a danddefnyddir gysylltu â darpar ddefnyddwyr ac ategu ymdrechion y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol a mentrau eraill o'r fath.

**30.** Mae'r fenter Landshare (gweler www.landshare.net) eisoes yn gyfrwng i ddod â phobl sydd am dyfu eu bwyd eu hunain ynghyd â phobl sydd â thir i'w rannu at y diben hwnnw. Mae'r fenter hon yn enghraifft ddefnyddiol o'r ffordd y gallai banc tir weithio. Rhoi cefnogaeth ac anogaeth i reolwyr tir y sector cyhoeddus yn arbennig i gymryd rhan mewn mentrau o'r fath yn wirfoddol fyddai'r lle mwyaf priodol i ddechrau.

**Cwestiwn 5**: Pa enghreifftiau o arferion da sy'n bod yn y maes hwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu arnynt i helpu i ryddhau tir at ddibenion tyfu bwyd yn y gymuned?

**Cynnig 3: Bod Llywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd o ymdrin â rhwystrau i ffermwyr ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd neu dyfu bwyd yn y gymuned.**

**31.** Roedd Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned 2010 yn nodi mai amharodrwydd dealladwy ffermwyr i ddod i gytundebau sy'n cael eu hystyried gyfystyr â rhoi'r gorau i reolaeth dros eu tir, ac nad ydynt yn cynnig gwarant o

incwm, yw'r prif reswm a oedd yn eu rhwystro rhag cynnig tir at ddibenion tyfu bwyd yn y gymuned. Gall nifer o resymau fod yn gyfrifol am hyn: cyllid (gall dechrau prosiect fod yn gostus); colli ffynhonnell draddodiadol, sicr o incwm o amaethyddiaeth; dryswch a fyddai rhywun yn dal yn gymwys i fod yn rhan o Gynllun y Taliad Sengl a gofynion trawsgydymffurfio; a gallai rhai ei chael hi'n anodd credu bod prosiectau o'r fath yn mynd i barhau i weithio a bod yn ffynhonnell o incwm.

**32.** Ar y llaw arall, mae yna enghreifftiau lle mae tyfwyr a thirfeddianwyr wedi cydweithio yn y maes hwn. Mae Menter FlintShare, yn y Gogledd-ddwyrain, wedi gweithio gyda thirfeddianwyr i greu gerddi cymunedol ar dir fferm a danddefnyddir. Cwmni cydweithredol cymunedol sydd wedi'i leoli yn Sir y Fflint yn y Gogledd yw FlintShare. Sefydlwyd y cwmni gyda chymorth gan Cadwyn Clwyd, yr asiantaeth adfywio gwledig ar gyfer yr ardal. Mae'r cynllun yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr ac yn rhoi cyfle i aelodau helpu i gynhyrchu eu bwyd eu hunain. Mae prosiectau Amaethyddiaeth â Chymorth y Gymuned eraill wedi cael eu datblygu hefyd, gan ddangos bod modd mynd i'r afael â rhwystrau i ddarparu tir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned gyda'r gefnogaeth briodol.

**33.** Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai rheolwyr tir weithio gyda chymunedau ar gyrion trefi i ddatblygu prosiectau tyfu lleol yn y gymuned neu yn yr ysgol, er budd pawb. Y bwriad yw diogelu rhagor o dir, dros dro neu'n lled-barhaol (gan ddibynnu ar gytundebau) ar gyfer tyfu ar eiddo amaethyddol nad yw'n cael ei ddefnyddio'n llawn ar hyn o bryd gan y perchennog. Byddai rhaid ystyried fesul achos a ellid defnyddio darn penodol o dir fel hyn.

**Cwestiwn 6**: Beth yw'r prif ddulliau y gallai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i gefnogi ffermwyr i ryddhau tir?

**Cynnig 4: Bod canllawiau cynhwysfawr ar godi strwythurau dros dro, eu cynnal a'u cadw, i gael eu cynhyrchu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer meddianwyr lleiniau ar safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned cofrestredig.**

**34.** Nid oes angen caniatâd cynllunio i greu safle rhandir, nac i ddefnyddio tir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned. Yn aml, fodd bynnag, ceir ansicrwydd ar draws safleoedd rhandir ac awdurdodau lleol ynghylch pryd y gallai fod angen caniatâd cynllunio ar gyfer strwythurau cysylltiedig. O ystyried y defnydd amrywiol a wneir o leiniau unigol, gallai achosi problemau i unigolion neu grwpiau cymunedol

petai'n rhaid iddynt gyfathrebu'n aml â'r awdurdod lleol perthnasol ynghylch cyfreithlondeb strwythurau penodol.

**35.** Byddai datganiad clir o'r hyn y gellir ei ganiatáu neu beidio ar lain rhandir neu lain ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned yn darparu'r wybodaeth y byddai ei hangen ar y rheini sy'n dymuno gosod strwythurau ar eu lleiniau a byddai'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd petai technolegau/technegau newydd yn cael eu cyflwyno. Byddai cynnig eglurder ynghylch caniatâd cynllunio hefyd yn gymhelliad i gofrestru safle.

**Cwestiwn 7:** A ydych chi o'r farn y byddai darparu canllawiau ar y mater hwn yn helpu i gynnig yr eglurder sydd ei angen ar ddeiliaid lleiniau?

**Cwestiwn 8:** (Os atebwyd 'ydw' i gwestiwn 7) Beth ddylid ei ystyried fel rhan o gwmpas y canllawiau hyn o ran y math o strwythurau ac amodau rheoli tir?

## 5.2. Cynigion ar gyfer Newid y Ddeddfwriaeth

**36.** Dim ond yn rhannol y bydd canllawiau gwell a chymorth ychwanegol yn mynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â chyflenwi tir i gymunedau dyfu eu bwyd eu hunain, ac mae yna newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a fyddai hefyd o gymorth.

**37.** Deddf Mân-ddaliadau a Rhandiroedd 1908 a Deddf Rhandiroedd 1925 yw'r statudau pwysicaf sy'n dal mewn grym yng Nghymru a Lloegr heddiw. Roedd y Ddeddf gyntaf hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chynghorau cymuned i ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd yn ôl y galw; ac roedd yr ail yn sefydlu'r diffiniad o randiroedd 'statudol' ac yn darparu ar gyfer eu diogelwch drwy osod gofyniad ar awdurdodau lleol i gael cydsyniad Gweinidogol cyn cael gwared ar randiroedd neu newid eu defnydd. Wrth bennu maint y galw, rhaid i awdurdod roi ystyriaeth i sylwadau a wnaed yn ysgrifenedig gan unrhyw chwe etholwr seneddol cofrestredig neu berson sy'n agored i dalu swm o'r dreth gyngor.[6] Nid yw'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau lleol a chynghorau cymuned yn rhagnodi terfyn amser y mae'n rhaid ei fodloni wrth ddod o hyd i dir ar gyfer rhandiroedd, a'i ddarparu, ac nid yw'n glir ychwaith sut y dylid cofnodi rhandiroedd 'statudol'. O ganlyniad, nid yw tir bob amser yn cael ei ddarparu'n amserol gan y cyrff hyn ac nid yw rhandiroedd sydd wedi hen sefydlu bob amser yn cael eu diogelu fel a fwriedir gan y ddeddfwriaeth.

---

[6] Gweler Adran 23 o Ddeddf Mân-ddaliadau a Rhandiroedd 1908

**38.** Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar faint o werth sydd i newid y gyfraith i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am leoedd ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned ac i gyd-fynd yn well â chynlluniau ar gyfer datblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol. Mae garddio a thyfu er mwyn gwireddu canlyniadau adfywio, amgylcheddol, addysg, iechyd a bioamrywiaeth wedi cael eu mabwysiadu'n eang o dan y cyfreithiau presennol, felly mae Llywodraeth Cymru am fod yn gwbl hyderus ei bod yn angenrheidiol newid y gyfraith i gefnogi mwy o ymyriadau ac arloesi o'r fath ac i ddatblygu ar y cynnydd a wnaed eisoes.

**Cynnig 5: Ymestyn y diffiniad o randiroedd i gynnwys gerddi cymunedol gydag ethos mwy cymunedol lle gellir marchnata bwyd a'i dyfu er budd cyffredinol yn ogystal ag er budd yr unigolyn.**

**39.** Cyfyng yw'r diffiniad presennol o randiroedd ac nid yw bellach yn adlewyrchu'r dulliau amrywiol posibl o roi mynediad i dir ar gyfer tyfu i gymunedau ac i unigolion. Fodd bynnag, os yw'r diffiniad i newid, yr her fydd ei wneud yn fwy perthnasol i arddwyr neu ddarpar arddwyr heddiw gan gydnabod bod gwerth sylweddol i randiroedd mwy traddodiadol hefyd, a'u bod yn amlwg yn cael eu gwerthfawrogi gan eu defnyddwyr. Mae'r diffiniad presennol o randiroedd wedi'i dargedu at yr unigolyn ac nid yw'n cynnwys tir ar gyfer diddordebau eraill megis tyfu yn y gymuned a gerddi ysgol.

**40.** Bydd ymestyn a diweddaru'r diffiniad o randiroedd i gynnwys amrediad ehangach o weithgareddau tyfu bwyd yn y gymuned, gan gynnwys tyfu dan arweiniad yr ysgol, yn golygu bydd y ddeddfwriaeth gysylltiedig yn adlewyrchu amrywiaeth y gweithgarwch presennol. Bydd hefyd yn rhoi mwy o gyfle a hyblygrwydd i fodloni'r galw a bydd yn golygu bod safleoedd ar draws yr amrediad o ddiddordebau tyfu yn cael eu diogelu i'r un graddau.

**Cwestiwn 9**: Beth ddylid ei gynnwys mewn diffiniad diwygiedig o randiroedd a garddio yn y gymuned?

**Cynnig 6: Caniatáu i awdurdodau lleol ddirprwyo'r gwaith o gyflawni eu dyletswyddau a gwasanaethau mewn perthynas â rhandiroedd a thyfu yn y gymuned i gorff y trydydd sector.**

**41.** Mae'r trydydd sector yn chwarae rôl bwysig i ddarparu cyfleoedd i bobl dyfu eu bwyd eu hunain. Mae'r rôl hon yn ymestyn i ddarparu cyngor a chefnogaeth i dirfeddianwyr a grwpiau cymunedol, rheoli safleoedd rhandir a rhestri aros, meithrin sgiliau tyfu a garddio, a chreu'r cysylltiadau ar draws yr amrywiol sectorau lle mae garddio a thyfu yn amlwg wedi bod o fudd i'r rheini sy'n cymryd rhan ac i gymunedau. Mae'r berthynas rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd o Gymru, ac mae diddordeb gennym sut y gellir cydnabod cyfraniad a rôl y trydydd sector yn fwy ffurfiol ac ystyried a fyddai newid y ddeddfwriaeth yn gallu rhoi mwy o rôl i'r sector.

**42.** Mae lefel ymglymiad y trydydd sector yn y modd y mae awdurdodau lleol a chynghorau cymuned yn arfer eu dyletswyddau i ddarparu rhandiroedd yn amrywio o fewn ardaloedd ac ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Mae tipyn o gyfle eisoes i awdurdodau lleol gynnwys cyrff y trydydd sector wrth gyflawni eu dyletswydd statudol bresennol, ar sail anffurfiol. Mae llawer o fudd i awdurdodau lleol gynnwys cyrff y trydydd sector i raddau llawer mwy. Gall hyn rymuso cymunedau a gwella gwasanaethau. Ar y llaw arall, gyda'r diffiniad o'r hyn y mae dyletswydd o'r fath yn berthnasol iddo o dan Gynnig 4 yn cael ei ymestyn, rydym o'r farn bod gwerth ystyried hefyd a ddylid creu ffordd i awdurdodau lleol ddirprwyo eu dyletswyddau ar randiroedd i gyrff y trydydd sector yn ffurfiol.

**Cwestiwn 10**: Beth yw'r manteision a'r anfanteision o gynnwys darpariaethau mewn deddfwriaeth sy'n caniatáu i randiroedd a thyfu yn y gymuned gael eu dirprwyo oddi wrth awdurdodau lleol i gorff y trydydd sector?

**Cynnig 7: Sefydlu map a chofrestr o safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned yng Nghymru, a'u hadolygu'n rheolaidd, at safon gyson.**

**43.** Mae'r trefniadau ar gyfer bodloni'r galw am randiroedd yn amrywio o fewn awdurdodau lleol unigol ac ar draws ardaloedd yng Nghymru. Mae strwythurau safleoedd rhandir sy'n eiddo cyhoeddus yn amrywio hyd yn oed; mae rhai yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol ac eraill yn cael eu prydlesu i gyrff cymunedol, cynghorau cymuned neu gymdeithasau rhandiroedd sy'n rheoli'r safleoedd. Mae yna hefyd safleoedd rhandir sy'n eiddo preifat, nad yw awdurdodau lleol yn ymwneud â hwy, yn ogystal â rhandiroedd a gerddi cymunedol.

**44.** Byddai cofrestr o safleoedd yn rhoi mwy o eglurder ynghylch hyd a lled y ddarpariaeth a geir mewn ardal ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned ac felly'n helpu i gynyddu'r tir sydd ar gael ac i reoli'r galw. Byddai hefyd yn rhoi rhywfaint o gysondeb o ran diogelu a rheoli rhwng y naill safle cofrestredig a'r llall. Cynigiwn y gellir ychwanegu safleoedd at y gofrestr am byth, am gyfnodau penodol, neu hyd nes y'u dilëir wrth adolygu.

**45.** Mae gan randiroedd a safleoedd tyfu yn y gymuned gyfraniad pwysig i'w wneud at yr amryfal fanteision sydd gan seilwaith gwyrdd i'w cynnig, yn arbennig mewn ardaloedd trefol. Gallai cofrestr, felly, fod o gymorth i gynllunio ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn ogystal â gwireddu canlyniadau eraill sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd mewn ardal, er enghraifft.

**46.** Rydym ni o'r farn, yn amodol ar Gynnig 5 uchod, y dylai'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddeall y galw am randiroedd a safleoedd tyfu yn y gymuned, a'u hargaeledd, gael ei roi i'r corff sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol dros arfer y ddyletswydd mewn ardal benodol. O ganlyniad, gallai'r gwaith o reoli'r gofrestr gael ei wneud gan drydydd parti.

**47.** Am resymau ymarferol, efallai y bydd angen cyfyngu ar y gofrestr yn y lle cyntaf i gynnwys dim ond y safleoedd rhandir hynny sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae lefel yr wybodaeth am y cyflenwad presennol yn anghyson ledled Cymru a gallai dull fesul cam fod yn fwy synhwyrol wrth symud ymlaen. Byddai angen i'r gofrestr gofnodi lleoliad, y perchennog presennol (perchenogaeth breifat, gyhoeddus neu gymunedol), a statws pob safle, parhaol neu dros dro (gydag amserlen), a p'un a ydy'r ardal yn cael ei ddefnyddio'n fwy eang (er enghraifft, fel fferm gymunedol).

**Cwestiwn 11**: Sut y dylid llunio cofrestr o'r fath a'i diweddaru?

Byddai diddordeb gennym glywed yn eich ymateb a allai cofrestr o'r fath fod yn rhan o restr tir neu eiddo presennol, pa gorff y dylai fod gofyn iddo ei gynhyrchu, a phwy ddylai gael mynediad i'r gofrestr ac at ba ddiben.

**Cwestiwn 12**: Fel rhan o hyn, a ddylai trydydd parti gael yr hawl i wneud cais i gofrestru neu ddatgofrestru safle, a sut y dylai hynny weithio?

Byddai diddordeb mawr gennym glywed yn arbennig eich barn ar sut y gallai apelio a chymrodeddu weithio fan hyn.

**Cwestiwn 13**: Yn unol â'r darpariaethau deddfwriaethol presennol, dim ond os ydynt yn bwriadu cael gwared ar safle rhandir statudol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Fel arfer, cyn cael cydsyniad Gweinidogion

Cymru, byddai’n ofynnol darparu safle arall o werth tebyg o ran amwynder yn lle’r safle rhandir a gaiff ei waredu. A ddylid ymestyn y dull hwn i bob safle cofrestredig?

**Cynnig 8: Sefydlu rhestr aros ar gyfer safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned cofrestredig, a’i chynnal, at safon gyson.**

**48.** Amlinellir uchod yr anawsterau sy'n codi o dan y trefniadau presennol ar gyfer rhestri aros. Gydag amrywiaeth ehangach o weithgareddau tyfu yn y gymuned ac amrywiaeth yn y ddarpariaeth o safleoedd, ac o ran eu deiliadaeth, mae'n fwy neu lai amhosibl barnu'n gywir a oes camau rhesymol yn cael eu cymryd i fodloni'r galw, ac a ydy rhai cymunedau yn cael llai o gyfle nag eraill.

**49.** Mae cyhoeddi rhestr aros yn un ffordd dryloyw i'r cyhoedd farnu a oes digon yn cael ei wneud i ddarparu mynediad i dir ar gyfer tyfu yn eu hardal. Rydym ni o'r farn hefyd y gallai sefydlu rhestr aros a'i chynnal fod yn gymhelliad i awdurdodau lleol a chynghorau cymuned weithio gyda thrydydd parti i ddod â'r safleoedd hyn o dan ambarél cofrestru, gan helpu i sicrhau bod mwy o ardaloedd yn gallu bodloni'r galw a'u bod yn cael eu diogelu at safon gyson. Gallai hefyd helpu i ddod o hyd i safleoedd gwag o fewn pellter rhesymol, ond sydd wedi'u cofrestru mewn ardal gyfagos, ar gyfer unigolion sydd ar amryw o restri aros ar hyn o bryd.

**50.** Dylid rhoi cyfrifoldeb ar unigolion neu grwpiau sy'n cynnig eu hunain ar gyfer rhestr aros gadarnhau bod ganddynt ddiddordeb o hyd mewn rhandir neu safle tyfu yn y gymuned. Mae'n ddymunol cael rhestr gywir a chyfredol ond mae amlder yr adolygiadau ffurfiol yn debygol o ddylanwadu ar faint y baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chynnal rhestr o'r fath. Rydym yn awyddus, felly, i glywed am arferion da sy'n bodoli eisoes o ran gweinyddu rhestri y dylid ystyried eu mabwysiadu'n ehangach.

**Cwestiwn 14**: Sut y dylid llunio rhestri aros a'u diweddaru?

Byddai diddordeb gennym glywed yn eich ymateb pa gorff y dylai fod yn ofynnol iddo gynhyrchu rhestr o'r fath yn eich barn chi.

**Cynnig 9: Pan fo tystiolaeth glir nad yw’r galw am randiroedd neu safleoedd tyfu yn y gymuned yn cael ei fodloni, dylid cyhoeddi cynllun yn amlinellu sut y bydd y ddarpariaeth honno yn cael ei chynyddu i fodloni’r galw hwnnw.**

**51.** Nid oes terfyn amser statudol ar hyn o bryd ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd i ddarparu rhandiroedd. Yr unig ddarpariaeth a geir yn y ddeddfwriaeth bresennol yw os yw awdurdodau lleol o'r farn bod yna alw am randiroedd yn y fwrdeistref, dosbarth neu blwyf, bydd y cyngor yn darparu digon o randiroedd ar gyfer y personau hynny sy'n byw yn y fwrdeistref, dosbarth neu blwyf sy'n dymuno cael rhandir o'r fath.

**52.** Yn ein barn ni, gallai problemau godi wrth bennu terfyn amser statudol ar gyfer darparu tir. Gallai dod o hyd i dir newydd addas fod yn dipyn o rwystr mewn rhai awdurdodau, felly mae'n bosibl na fydd terfyn amser ar ei ben ei hun yn arwain at sefydlu'r partneriaethau a'r dull arfaethedig yr ydym ni o'r farn a allai helpu i annog cyfleoedd i arloesi, datblygu arferion da ac, yn y pen draw, rheoli'r galw yn effeithiol. Rydym o'r farn y gallai gofyniad i gynhyrchu strategaeth pan fo tystiolaeth glir o alw nad yw'n cael ei fodloni helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chynyddu a gallai annog y defnydd o ddulliau arloesol. Bydd hefyd o gymorth o ran sicrhau bod yna ymateb mwy cydlynol, a fydd yn amlwg i bawb, i'r ddyletswydd i ddarparu mynediad i dir. Gallai'r broses o lunio strategaeth hefyd helpu i sefydlu partneriaethau cadarn a allai oresgyn yr hyn a allai fod yn rhwystr amhosibl pe byddai un awdurdod neu wasanaeth rhandiroedd yn gweithio'n annibynnol.

**53.** Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r sbardun ar gyfer y cynnig hwn, ond gellid ei seilio ar gyhoeddi'r rhestr aros statudol pan fo'n rhagori ar drothwy penodol, ar sylwadau gan y cyhoedd, neu gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru. Gallai gofyniad i greu strategaeth i fynd i'r afael â'r galw annog partneriaethau lleol i fabwysiadu amrediad o ddulliau eraill ar gyfer clustnodi neu gaffael tir at y diben ac, felly, helpu i gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned.

**54.** Gallai'r rhestr aros a'r cynllun statudol hefyd fod yn dystiolaeth gadarn o'r angen i awdurdodau lleol wrth iddynt drafod y ddarpariaeth ar gyfer safleoedd tyfu bwyd yn y gymuned drwy adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, a chytuno arni, ac wrth iddynt geisio denu cyllid allanol ar gyfer prosiectau tyfu bwyd yn y gymuned. Gallai'r syniad o godi tâl ar gyfer gwasanaethau ecosystem o dan gynlluniau'r dyfodol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol hefyd fod yn gymhelliad i gofrestru tir i'w ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd, lle ystyrir mai eu swyddogaeth yw cyflenwi gwasanaethau ecosystem.

**55.** Mae deddfwriaeth ar randiroedd yn dod i'r casgliad eisoes y dylai awdurdodau lleol ddatblygu cynllun, ac mae "Growing in the Community", canllaw arferion da y Gymdeithas Llywodraeth Leol, hefyd yn argymell llunio strategaeth. Roedd adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru yn argymell y dylai awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau ffurfiol ar gyfer tyfu yn y gymuned, gyda chysylltiadau ffurfiol â chynlluniau strategol awdurdodau lleol, polisïau cynllunio defnydd tir a pholisïau a

strategaethau eraill. Rydym ni'n cytuno â hyn, ac rydym o'r farn mai awdurdodau lleol ddylai arwain ar lunio strategaeth o'r fath, gan mai nhw sy'n y sefyllfa orau i oruchwylio'r amrediad o gamau gweithredu mewn ardal, yn ogystal â'r cysylltiadau â chynlluniau a strategaethau eraill, megis y Cynllun Datblygu Lleol. Mae llawer o awdurdodau yng Nghymru eisoes yn llunio strategaeth ar randiroedd. Mae'r cynnig hwn, felly, yn ceisio sicrhau bod yr arfer da hwn yn cael ei fabwysiadu ar draws Cymru fel bod pob cymuned yn cael yr un math o wasanaeth o ran rhandiroedd a thyfu yn y gymuned.

**Cwestiwn 15**: Beth ddylai fod yn sbardun ar gyfer datblygu strategaeth tyfu bwyd yn y gymuned, ac a ydych chi'n cytuno mai'r awdurdod lleol ddylai arwain ar ei llunio?

Byddai diddordeb gennym glywed eich barn a fyddai strategaeth o'r fath yn gallu bod yn rhan o gynlluniau integredig unigol neu'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer adnoddau naturiol neu a ellid ei datblygu i gyd-fynd â'r cynlluniau lefel uchel hyn.

**Cynnig 10: Sefydlu hawl i awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol sefydledig gofrestru a defnyddio (dros dro) dir cyhoeddus nas ddefnyddir neu a danddefnyddir, neu dir lle na ellir sefydlu pwy yw'r perchennog, at ddibenion tyfu bwyd yn y gymuned.**

**56.** Bwriad y cynnig hwn yw grymuso awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a chymunedau i ddiogelu tir ar gyfer tyfu yn y gymuned. Dylai mwy o dir sy'n eiddo cyhoeddus, a thir a danddefnyddir, fod ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd ac ar gyfer garddio yn y gymuned. Rydym o'r farn y dylai awdurdodau lleol a chymunedau gael mwy o bŵer i gofrestru tir a'i ddefnyddio at ddibenion tyfu yn y gymuned o dan amodau penodol.

**57.** Gallai'r cynnig hwn helpu i fodloni'r galw mewn ardal ac mae'n ffordd fwy ffurfiol o gynnwys amrywiaeth ehangach o dirfeddianwyr cyhoeddus wrth ddarparu mannau tyfu yn y gymuned. Mae tir ysbytai, y tir sy'n amgylchynu adeiladau cyhoeddus neu ddatblygiadau cymdeithasau tai, a ffiniau tir amaethyddol wedi cael eu hawgrymu fel ardaloedd lle gellid ymgymryd â gweithgareddau tyfu yn y gymuned. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai hwn fod yn fater a fydd yn corddi emosiynau, ac y byddai angen pennu mesurau i ddiogelu buddiannau pob tirfeddiannwr. Gallai fod yn ofynnol, felly, rhoi cyfnod o rybudd o'r bwriad i ddefnyddio'r tir at ddibenion tyfu a gallai fod angen dangos perchenogaeth hefyd os caiff hynny ei wrthwynebu. Wedi i fannau tyfu o'r fath gael eu sefydlu, byddai angen rhywfaint o sicrwydd am hyd y cyfnod deiliadaeth dros dro er mwyn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr na fydd y tir yn cael ei golli yng nghanol tymor tyfu, er enghraifft.

58. Ni fyddai'n fwriad atal cyrff cyhoeddus na thirfeddianwyr a fyddai'n dod i'r amlwg wedi hyn rhag gallu defnyddio eu tir, neu gael gwared ohono, ar gyfer yr elw mwyaf posibl.

**Cwestiwn 16**: O dan ba amgylchiadau, a gyda pha fesurau diogelu, ddylai awdurdodau lleol a chymunedau allu cofrestru a defnyddio tir nad ydynt yn berchen arno nac yn ei brydlesu ar gyfer tyfu yn y gymuned?

**Cynnig 11: Caniatáu i ardaloedd o dir a glustnodwyd at ddibenion eraill gael eu defnyddio ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned lle nad yw'n amharu nac yn effeithio ar y diben dynodedig nac ar unrhyw werth arall o ran amwynder.**

59. Byddai'n bosibl cynyddu'r tir sydd ar gael drwy fod yn fwy hyblyg yn y ffordd y gall rhywfaint o dir gael ei ddefnyddio, naill ai'n barhaol neu dros dro. Mae'n bosibl na fydd rhai ardaloedd gwarchodedig, er enghraifft meysydd pentref, ar gael ar hyn o bryd i'w hystyried fel safleoedd ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned, boed hynny'n rhannol neu'n gyfan. Fodd bynnag, gellid cynnal gweithgareddau tyfu bwyd yn y gymuned heb effeithio ar fwynder y safle ac ar ei statws gwarchodedig gwreiddiol. Dylai'r cynnig hwn ymestyn hefyd i leoliadau tyfu bwyd yn y gymuned ar barseli bach o dir megis nodweddion tirweddu mewn datblygiadau newydd, ymylon ffordd, caeau chwarae neu barciau.

60. Ni fydd yr holl dir sy'n berthnasol i Gynnig 9 neu 10 yn addas ar gyfer tyfu bwyd. Mae yna bryderon dilys ynglŷn â diogelwch mewn perthynas â defnyddio rhai ymylon ffordd fel ardaloedd tyfu, nid yn unig o ran y traffig ond hefyd o ran halogion posibl ac elfennau gwenwynig mewn dŵr ffo a allai gyrraedd y gadwyn fwyd. Byddai angen cynnal asesiad o ba mor addas yw'r tir, felly, i ystyried amrywiaeth eang o faterion. Byddai angen mynediad hefyd at wybodaeth am y defnydd a wnaed o'r tir yn y gorffennol, am ddefnydd y tir cyfagos, hydroleg ac ati.

**Cwestiwn 17**: I ba fath o ardaloedd y dylid ymestyn y cynnig hwn, a pha gamau diogelu y byddai eu hangen?

**Cwestiwn 18**: Sut y dylid mynd ati i asesu pa mor addas yw'r tir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned, a pha faterion y dylid eu hystyried?

**Cwestiwn 19**: A ydych chi'n cytuno â'r cynigion uchod naill ai fel un pecyn cyfunol neu'n rhannol?

**Cwestiwn 20**: Beth yw effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl y cynigion (ar y cyd neu’n rhannol)?

**Cwestiwn 21**: Ym mha ffyrdd eraill, yn hytrach na'r cynigion a geir uchod, y gellid gwella'r ddarpariaeth tir ar gyfer rhandiroedd a thyfu yn y gymuned?